## PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## YSTYRIED YR ADRODDIAD AR YR ADOLYGIAD RHEOLI O FFEDERASIWN TENANTIAID CYMRU

**Diben:**

1. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi a thrafod yr adroddiad ar yr adolygiad rheoli o Ffederasiwn Tenantiaid Cymru (WTF).

2. Mae’r mater hwn yn rhan o’r gwaith y cytunodd y Pwyllgor i fynd i’r afael ag ef yn y dyfodol.

**Crynodeb:**

3. Penodwyd Hacas Chapman Hendy ym mis Tachwedd 2000 i gynnal adolygiad rheoli annibynnol o’r WTF. Fel rhan o fethodoleg yr adolygiad dosbarthwyd holiadur i bob aelod sy’n denant, cynhaliwyd cyfweliadau â staff, aelodau allweddol o’r Pwyllgor ac archwilwyr y sefydliad a gwnaed arolwg o landlordiaid cymdeithasol a chyrff sy’n cynrychioli materion tai.

4. Ehangwyd y cylch gwaith i gynnwys rhoi cyngor ar anghydfod rhwng unigolyn a’r WTF ac ar fframwaith addas ar gyfer datrys anghydfod, ac i wneud argymhellion ar yr angen am god ymddygiad ar gyfer y WTF, ac ar gynnwys y cod hwnnw.

**Amseru:**

5. Cyflwynwyd yr adroddiad yn ystod yr wythnos diwethaf. Cytunodd y Gweinidog dros Lywodraeth Leol, Cyllid a Chymunedau gyflwyno’i chanfyddiadau i’r Pwyllgor cyn gynted â phosibl.

**Cefndir:**

6. Mynegwyd pryder yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf ynghylch y modd y mae’r WTF yn arwain, yn rheoli ac yn cyfarwyddo ac ynghylch defnyddio arian grant yn effeithiol. Penderfynwyd felly y dylid cynnal adolygiad rheoli i egluro’r cyfeiriad cyffredinol y mae’r sefydliad yn ei gymryd ac i weld a ddarperir gwerth am arian wrth wario arian grant. Fel prif ariannwr, ac mewn gwirionedd unig ariannwr y WTF, mae’n amlwg fod y Cynulliad yn gyfrifol

ac yn atebol am sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n effeithiol. Un o brif sefydliadau tenantiaid Cymru yw'r WTF a disgwylir iddo, fel y cyfryw, roi barn a chyngor doeth i'r Cynulliad ar faterion tenantiaid. Ar hyn o bryd mae hyn yn hynod hanfodol o gofio pwyslais y Cynulliad ar roi mwy o ran i'r tenant.

**Ystyriaethau:**

7. Mewn amgylchiadau anodd, mae'r ymgynghorwyr wedi gallu darganfod beth arweiniodd at y problemau mewnol ac yn y pen draw at ddechrau'r adolygiad. Mae'r adroddiad yn arfarnu cryfderau a gwendidau'r WTF mewn modd realistig ac yn cynnig atebion ymarferol ar gyfer datrys problemau diweddar ac ar gyfer galluogi'r sefydliad i ddatblygu mewn ffordd fwy effeithlon ac effeithiol.

8. Er enghraifft, mae'r adroddiad yn cynnwys yr argymhellion canlynol;

**Llywodraethu:** e.e. diweddaru memorandwm, erthyglau cymdeithasiad a chylch gwaith y Pwyllgor Rheoli;

**Hyfforddiant a Rheoli:** mabwysiadu cynllun hyfforddi blynyddol; darparu hyfforddiant blynyddol ar gyfer aelodau'r Pwyllgor yn eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau fel Cyfarwyddwyr.

**Rheoli Ariannol:** amrywiol welliannau i'r trefniadau ar gyfer creu cyllidebau a llunio adroddiadau; gwahodd archwilwyr i gynnal archwiliad dros dro ar gyfer 2000-2001 i brofi p'un a yw gweithdrefnau newydd yn effeithiol;

**Gallu i gyflawni amcanion:** diwygio strwythur presennol y Pwyllgor; hyrwyddo gwaith y WTF yn well ar gyfer darpar aelodau a landlordiaid.

**Datrys anghydfod:** sefydlu gweithdrefn ar gyfer datrys anghydfod o fewn pob grp tenant; datrys anghydfod yn gyflym pan fo angen gan ddefnyddio canolwyr neu gymrodeddwyr; hyfforddi tenantiaid yn well mewn materion trefniadol ac egluro beth yw rôl y WTF mewn anghydfod.

9. Yn ôl yr adroddiad, mae'r WTF eisoes wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'i broblemau ers i'r Cynulliad fynegi pryder. Er bod yr ymgynghorwyr yn argymell amryw o ffyrdd y gall y WTF gryfhau'i brosesau rheoli mewnol, maent yn nodi bod modd canmol sawl agwedd ar y ffordd y mae'r sefydliad yn gweithio. Mae'r adroddiad yn arbennig yn tanlinellu'r cyfraniad y mae'r WTF wedi'i wneud i'r agenda polisi yng Nghymru, i gefnogaeth y tenantiaid ar lawr gwlad, i'r hyfforddiant a gynigir i'w aelodau ac i'r ymdrech gwirfoddol sylweddol y mae'r Pwyllgor Rheoli'n ei roi.

10. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi efallai y bydd y Cynulliad am ystyried unrhyw wasanaethau

sy’n cael eu darparu gan y WTF a chan Wasanaeth Ymgynghorol Cyfranogiad Tenantiaid (TPAS) Cymru ac unrhyw ddyblygu posibl o arian y Cynulliad o ganlyniad i hyn. Mae’r ddau sefydliad yn y broses o ddiweddaru protocol o’u swyddogaethau a byddwn yn adolygu’r rhain. Yn ychwanegol at hyn rydym yn bwriadu cynnal adolygiad o TPAS Cymru yn y flwyddyn ariannol hon.

11. Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i Bwyllgor Rheoli’r WTF ar gyfer ei ystyried. Rydym wedi ceisio cael ymateb ffurfiol ganddynt i ganfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad, ynghyd â manylion ar sut ac erbyn pryd y byddant yn mynd i’r afael a’r rhain, o fewn cyfnod ymateb cyffredinol o 9 mis. Ar ôl hynny anfonir copïau o grynodeb o’r adroddiad at staff ac aelodau’r WTF, yn ogystal ag at eraill a gyfrannodd at yr adroddiad sydd yn gofyn am gopi. Wrth gyhoeddi crynodeb o’r adroddiad ceir cyfle i roi sylwadau ar argymhellion yr adroddiad.

**Cymhwyso:**

12. Mae gan y Cynulliad ber i wneud grantiau o dan y Ddeddf Tai 1985 (fel y’i diwygiwyd gan Adran 16 Deddf Tai a Chynllunio 1986) ac Adran 87 o Ddeddf Cymdeithasau Tai 1985 (fel y’i diwygiwyd gan Atodlen 3 o Ddeddf Tai 1996 a Deddf Llywodraeth Cymru 1999). Mae’r pwerau perthnasol o dan y ddwy ddeddf wedi’u dirprwyo i Weinidog y Cynulliad ac mae’r pwerau perthnasol o dan y Ddeddf Cymdeithasau Tai 1985 hefyd wedi eu dirprwyo i staff.

13. Nid yw’r adolygiad wedi dod ar draws unrhyw faterion o reioleidd-dra neu briodoldeb.

**Camau i’r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai eu cymryd:**

14. Gwahoddir y Cynulliad i nodi ac i roi sylwadau ar yr adroddiad ar yr adolygiad rheoli o Ffederasiwn Tenantiaid Cymru.

**Cysylltwch â:**

15. Lynne Edwards, Y Gyfarwyddiaeth Dai, est 6793.